| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| DYDDIAD | **27 Mai 2021** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **Cyflwyno –**<br>• **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2020/21, a**<br>• **Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad** |
| AWDUR | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid** |
| GWEITHREDIAD | **Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon** |

---

## 1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2020-21

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2020-21 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2020/21, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 14 Hydref 2021 o’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen cyn 30 Tachwedd 2021.

2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2020/21.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef ;–

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2020/21 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2021, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B